Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 15 Gorffennaf 2019, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Gavin Harris (Maer), Heather Williams (Dirprwy Faer) Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Jim Bryan, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Ian Lewney, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape ac Emrys Wynne.

64. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Ifan Wyn.

65. DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd datganiadau o fuddiant.

66. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau a ganlyn.

12.06	Beirniadu'r Ŵyl Bwganod Brain a chyfarfod ynghylch Neuadd y Dref
13.06	Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Gefeillio Rhuthun
16.06	Ymweld â Scott House, cynllun gerddi agored cenedlaethol
17.06	Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
18.06	Beirniadu platiau Ysgol Pen Barras
22.06	Carnifal Rhuthun
25.06	Noson Gaws a Gwin y Maer fel rhan o Ŵyl Rhuthun
26/ 27/ 28.06	Nosweithiau codi arian Picturehaus fel rhan o Ŵyl Rhuthun
28.06	Gwasanaeth disgyblion Blwyddyn 6 sy'n gadael yr ysgol gynradd yn Eglwys Sant Pedr
30.06	Gwasanaeth angladd Olivia Alkir yn Efenechtyd a Sgwrs Hanes Gŵyl Rhuthun yng Nghanolfan Awelon
30.06	Cyngerdd Gŵyl Rhuthun yn y Capel Presbyteraidd Saesneg
04.07	Agoriad swyddogol Ysgol Pen Barras ac Ysgol Stryd y Rhos a chyngerdd yn Eisteddfod Gydwladol Llangollen
14.07	Gwasanaeth Dinesig a chinio Dinesig y Maer

67. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Heather Williams (Dirprwy Faer)	Cyfarfod ynghylch Neuadd y Dref, Rhuthun, Carnifal Rhuthun, noson Gaws a Gwin y Maer yn y Manorhaus fel rhan o Ŵyl Rhuthun, cyngerdd Côr Voci yn Eglwys Sant Pedr fel rhan o Ŵyl Rhuthun, gwirfoddoli wrth y mân atal yn Stryd y Castell yn ystod digwyddiad Top Dre Gŵyl Rhuthun, sgwrs hanes Rhuthun yng Nghanolfan Awelon fel rhan o Ŵyl Rhuthun, cyngerdd Côr Meibion Llanddulas yng Nghanolfan Awelon fel rhan o Ŵyl Rhuthun, Pwyllgor Rheoli Canolfan Awelon, cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys a Sioe Gymnasteg yn Theatr John Ambrose.
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Carnifal Rhuthun, digwyddiad Top Dre Gŵyl Rhuthun, cyfarfodydd llywodraethwyr Ysgol Stryd y Rhos ac agoriad swyddogol Ysgol Stryd y Rhos.
Cyng. Stephen Beach	Carnifal Rhuthun a digwyddiadau Gŵyl Rhuthun.
Cyng. Jim Bryan	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys, noson Gaws a Gwin y Maer yn y Manorhaus fel rhan o Ŵyl Rhuthun, digwyddiad Top Dre Gŵyl Rhuthun a chyfarfodydd Pwyllgor Gŵyl Rhuthun.
Cyng. Ken Hawkins	Noson Gaws a Gwin y Maer yn y Manorhaus fel rhan o Ŵyl Rhuthun, sgwrs hanes Rhuthun yng Nghanolfan Awelon fel rhan o Ŵyl Rhuthun a chyngerdd yn Eisteddfod Gydwladol Llangollen.
Cyng. John Wynne	

Hughes	
Cyng. Menna Jones	Cyfarfod Pwyllgor Apêl Rhuthun Eisteddfod yr Urdd 2020, Carnifal Rhuthun, cyngerdd Ar Log, perfformiad The Tempest yn Nantclwyd y Dre, cyfarfod ynghylch Neuadd y Dref, cyngerdd Llwyfan Eirwyn, cynorthwyo yn nigwyddiad Top Dre, gwylio côr Ysgol Pen Barras yn cystadlu yn Eisteddfod Gydwladol Llangollen ac agoriad swyddogol adeilad newydd Ysgol Pen Barras ac Ysgol Stryd y Rhos.
Cyng. Ian Lewney	
Cyng. Jabez Oakes	Cyfarfod Gwarchod Tafarndai
Cyng. Robert Owen-Ellis	3 Sesiwn Banc Bwyd, sgwrs hanes Rhuthun yng Nghanolfan Awelon fel rhan o Ŵyl Rhuthun, Cyfarfod Blynyddol Banc Bwyd Dyffryn Clwyd yn Ninbych a Chynhadledd Llywodraethwyr Ysgol Sir Ddinbych yn Neuadd y Dref, Dinbych.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys, cyfarfodydd Ymlaen Rhuthun, digwyddiad codi arian Gofal Dydd Awel yn y Clwb Pel-droed, cyfarfod Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch a digwyddiad Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch, cyfarfodydd Ymlaen Rhuthun, Carnifal Rhuthun, noson Gaws a Gwin y Maer yn y Manorhaus fel rhan o Ŵyl Rhuthun a noson ffilm Picturehaus fel rhan o Ŵyl Rhuthun.
Cyng. Dave Snape	Cyfarfod Gweithgor Strategaeth Cyfathrebu, Carnifal Rhuthun, cyngerdd coffa Eirwyn Evans, noson Gaws a Gwin y Maer yn y Manorhaus fel rhan o Ŵyl Rhuthun, Gŵyl Rhuthun a chyfarfod Pwyllgor Theatr John Ambrose.
Cyng. Ifan Wyn	
Cyng. Emrys Wynne	

68. ADRODDIADAU CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Derbyniodd yr aelodau adroddiad gan y Cynghorydd Sir Emrys Wynne, a oedd yn cyfeirio at gwynion ynghylch torri glaswellt a thorri gwrychoedd o gwmpas y dref, yn enwedig ym Mynwent Llanrhydd. Cyfeiriwyd at y rhybudd o gynnig a gyflwynwyd i'r Cyngor Sir ynghylch yr argyfwng newid yn yr hinsawdd a chadarnhaodd y Cynghorydd Wynne bod y grŵp atal defnyddio plastig un tro'n unig yn parhau â'i waith.

69. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2019 yn gywir.*

70. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

71. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2019.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2019.*

72. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2019.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2019.*

73. DIWEDDARIAD AR Y STRATEGAETH A CHANLLAWIAU CYFATHREBU

Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad ynghylch y Strategaeth a'r Canllawiau Cyfathrebu yn dilyn y trafodaethau ar 8 Gorffennaf 2019. Dywedodd y Clerc na dderbyniwyd unrhyw adborth. Esboniodd y Cynghorydd Dave Snape bod cyfarfod i'w drefnu gyda Ruth Astbury ynghylch cyfathrebu a marchnata'r Hen Lys.
PENDERFYNWYD*: derbyn y diweddariad.*

74. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS

Darparwyd diweddariad i'r aelodau gan y Cynghorydd Gavin Harris. Byddai tendrau ar gyfer y gwaith adnewyddu'n cael eu dychwelyd erbyn dydd Gwener, 19 Gorffennaf, a'u gwerthuso gan y Gwithgor ac e-bostio'r canlyniadau i'r holl aelodau i wneud penderfyniad i fwrw ymlaen i benodi contractwr. Diweddarwyd yr aelodau hefyd ynghylch yr ymgysylltu â'r gymuned a'r gofynion Rheoli Dylunio ac Adeiladwaith. Diolchodd y Cynghorydd Jim Bryan i'r Cyngor Tref, ar ran Pwyllgor Gŵyl Rhuthun, am gael defnyddio'r Hen Lys fel man storio a chanolbwynt yn ystod digwyddiad Top Dre Gŵyl Rhuthun.

PENDERFYNWYD*: derbyn y diweddariad.*

75. FELODROM GOGLEDD CYMRU

Hysbyswyd yr aelodau am y posibilrwydd o gyflwyno Rhuthun fel lleoliad ymgeisiol ar gyfer Felodrom Gogledd Cymru. Croesawodd yr aelodau hyn fel datblygiad potensial cadarnhaol ar gyfer y dre ac roeddynt o blaid cynnal cyfarfod cyntaf rhwng partïon â diddordeb i ystyried hyn yn fanylach.

PENDERFYNWYD*: cefnogi bwrw ymlaen gyda'r ymchwiliadau dechreuol i leoli Felodrom Gogledd Cymru yn Rhuthun a derbyn diweddariad arall gynted ag y bo modd.*

76. TREFNIADAU AR GYFER CYFARFOD Y PWYLLGOR PWERAU BRYS

Cynigiodd yr aelodau y dylid cynnal y cyfarfod nos Lun, 19 Awst am 7pm yn dilyn cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys, gyda'r Maer, y Dirprwy Faer ac unrhyw gynghorwyr eraill sydd ar gael yn bresennol.

PENDERFYNWYD*: cynnal cyfarfod y Pwyllgor Pwerau Brys i ymdrin ag unrhyw faterion cynllunio a chyfrifon i'w talu ar 19 Awst 2019, gyda'r agenda i'w dosbarthu i'r holl aelodau er gwybodaeth.*

77. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Mehefin 2019.

PENDERFYNWYD: *derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Mehefin 2019.*

78. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

D.U.	BT Business	Gwasanaethau ffôn a band eang	*	£192.76
100194	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych	Ffi adnewyddu aelodaeth		£30.00
100195	Bwrdd Benthyciad Gweithiau Cyhoeddus (PWLB)	Taliad benthyciad yr Hen Lys		£3,516.42
100196	Llanfwrog CIC	Gwasanaethau torri glaswellt – Gorffennaf		£352.26
100197	Hill & Roberts	Gwasanaethau cyfrifyddu a chyflogres - Gorffennaf	*	£84.00
100198	Sandra Williams	Ffi anfon arbennig – archwilydd allanol		£7.40
100199	Angle Surveys	Arolwg topograffegol Sgwâr Sant Pedr, rhannau uchaf Stryd y Ffynnon a Stryd y Farchnad ynghyd â chyffyrdd Ffordd Wynnstay, Rhuthun	*	£2,274.00
100200	Clwb Pel-droed Rhuthun	Hysbyseb ar ymyl y cae peldroed yn nhymor 2019/20		£250.00
100201	SLCC Enterprises	Cynhadledd Cymru SLCC, Llandrindod – ffi mynd i'r gynhadledd	*	£96.00
100202	Cyngor Tref Dinbych	Cyfraniad tuag at gostau teithio i		£25.35

100203	Marian Rees	Gynhadledd Cymru SLCC yn Llandrindod Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd – Gorffennaf	*	£180.00
100204	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac yswiriant gwladol		£354.12
100205	Llanfwrog CIC	Gwasanaethau dyfrio		£985.00
100206	Smith of Derby	Dod i'r safle yn dilyn hysbysu am nam a thynnu'r pwli ymaith i'w drwsio yn y gweithdy	*	£300.00
100207	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	2 ginio yn dilyn cyfarfod chwarterol y Gymdeithas yng Nghei Connah, 19.07.19		£32.00
100208	Scottish Power	Ffioedd trydan – Yr Hen Lys		£25.87
100209	Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch	Cymorth ariannol tuag at Ddrysau Agored Rhuthun 2019		£1,500.00
100210	Total Gas & Power	Cyflenwad nwy yr Hen Lys		£36.23
100211	Owen & Edwards Ltd	Cyflenwi te a choffi yn dilyn gwasanaeth Sul y Maer		£85.00

79. ADOLYGIAD TREFNIADAU ETHOLIADAU YN SIR DDINBYCH

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried yr Adroddiad Argymhellion Terfynol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

PENDERFYNWYD: *y byddai'r Grŵp Adolygu Dogfennau'n adolygu cynnwys y ddogfen.*

80. DIWEDDARIAD GAN YR IS-BWYLLGOR STAFFIO

Darparwyd diweddariad i'r aelodau gan yr Is-bwyllgor Staffio a gyfarfu'n gynharach yn y prynhawn i ystyried y ceisiadau a dderbyniwyd ar gyfer swydd Rheolwr yr Hen Lys/Dirprwy Glerc y Dref. Hysbyswyd yr aelodau bod nifer o geisiadau wedi'u derbyn ac, yn dilyn cynnal proses sgorio, bod rhestr fer o bedwar ymgeisydd yn cael ei hargymell i'r Cyngor i ddod draw am gyfweliad nos Lun, 29 Gorffennaf.

PENDERFYNWYD: *cymeradwyo gwahodd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer am gyfweliad ar 29 Gorffennaf a dirprwyo awdurdod i'r Is-bwyllgor, yn gweithredu fel y panel cyfweld, i gynnig y swydd i ymgeisydd addas.*

81. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 23 Medi 2019 am 7.00pm.*